# Sylwadau, Cwynion ac Argymhellion

**Ein nod yw i ddarparu'r gwasanaeth gofal gorau posib i'n holl gleifion. Byddwn wastad yn barod i wrando ar eich syniadau am ffyrdd o wella y gwasanaeth a ddarperir.**

**Cwyno**

Os oes gennych chi bryder neu gŵyn am y gwasanaeth a gawsoch gan y meddygon neu'r staff sy'n gweithio yn y practis hwn, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda.

Os oes gennych gwyn ynglŷn â diogelu data gan gynnwys y ffordd y mae'r feddygfa'n prosesu neu'n trin data personol, neu broblemau wrth gael mynediad at eich gwybodaeth, rhowch wybod i ni.

Gobeithiwn y byddwn yn gallu datrys y rhan fwyaf o broblemau'n ddidrafferth ac yn gyflym, fel maen nhw'n codi y rhan amlaf a chyda'r unigolyn cysylltiedig. Os na ellir datrys eich problem y ffordd hon ac rydych yn dymuno gwneud cwyn, dymunwn i chi roi gwybod cyn gynted â phosibl - yn ddelfrydol o fewn dyddiau, neu'r fan bellaf, ychydig wythnosau - oherwydd bydd hyn yn ein galluogi i ddarganfod yr hyn a ddigwyddodd yn rhwyddach. Os nad oes modd gwneud hyn, rhowch wybod i ni fanylion eich cwyn:

- O fewn 6 mis o'r digwyddiad a achoswyd y broblem, neu
- Cyn pen 6 mis o ddarganfod bod gennych broblem, gan gymryd bod hyn cyn pen 12 mis o ddyddiad y digwyddiad.

Bydd Rheolwr y Practis yn hapus i ddelio ag unrhyw gwyn. Byddant yn esbonio'r weithdrefn i chi ac yn sicrhau ein bod yn ymdrin â'ch pryderon yn amserol. Gellwch wneud eich cwyn:

**Mewn person neu dros y ffôn -** gofynnwch i gael siarad gyda'r Rheolwr Practis.

**Yn ysgrifenedig drwy'r post neu e-bost -** Bydd rhai cwynion yn rhwyddach i'w hesbonio'n ysgrifenedig - rhowch cymaint o wybodaeth â phosibl, yna gallwch anfon eich cwyn i'r practis er sylw Rheolwr y Practis, cyn gynted â phosibl.

**Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud**

Cynlluniwyd ein gweithdrefn gwyno i sicrhau ein bod yn datrys unrhyw gwynion mor sydyn â phosibl.

Byddwn yn cydnabod eich cwyn o fewn 3 diwrnod gwaith ac yn anelu i fod wedi edrych i mewn i'ch cwyn o fewn 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad y gwnaethoch ddod â'r gŵyn i'n sylw. Byddwn wedyn yn gallu cynnig eglurhad i chi, neu gyfarfod â'r bobl sy'n gysylltiedig.

Pan fyddwn yn ymchwilio i'ch cwyn, ein nod yw:

- darganfod yr hyn a ddigwyddodd a beth aeth o'i le
- ei gwneud yn bosibl i chi drafod y broblem gyda'r rhai sy'n gysylltiedig, os hoffech wneud hyn
- gwneud yn siŵr eich bod yn cael ymddiheuriad, pan fo'n briodol
- nodi'r hyn y gallwn ei wneud i sicrhau na fydd y broblem yn codi eto.

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, trafodir eich cwyn gyda chi yn fanwl, wyneb yn wyneb neu'n ysgrifenedig.

**Cwyno ar ran rhywun arall**

Cofiwch, rydym yn cadw'n gaeth at reolau cyfrinachedd meddygol. Os ydych yn cwyno ar ran rhywun arall, mae'n rhaid i ni gael gwybod eich bod wedi derbyn ei g/chaniatâd i wneud hyn. Bydd angen nodyn wedi'i lofnodi gan yr unigolyn dan sylw, oni bai na all ddarparu hyn (oherwydd salwch).

## Yr hyn i'w wneud nesaf

Gobeithiwn, os bydd gennych broblem, y byddwch yn defnyddio gweithdrefn gwyno ein practis. Credwn mai hyn fydd yn rhoi'r cyfle gorau i ni wneud yn iawn am yr hyn aeth o'i le a'r cyfle i wella'n practis.

Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r ymatebion i'ch cwyn, mae'r hawl gennych i ofyn i Ombwdsmon Cymru adolygu'ch achos.

Manylion Cyswllt:

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
Rhif ffôn: 0300 790 203
E bost: ask@ombudsman.wales
Cyfeiriad: Ombwdson Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
Gwefan: www.ombwdsmon.cymru

Os yw eich cwyn yn gŵyn diogelu data ac nad ydych yn fodlon â chanlyniad ein hymateb, mae gennych yr hawl i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwyobdaeth (ICO).

Manylion cyswllt:

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: Gwneud cwyn | ICO

## Cefnogaeth ac Arweiniad

Mae Gwasanaeth Ymholiadau a Datrysiadau'r Bobl (PEARS) yn wasanaeth cymorth ymroddedig i gleifion ar draws GIG Cymru. Mae'n gweithredu fel un pwynt cyswllt tosturiol i gleifion, gofalwyr a theuluoedd i rannu adborth, gofyn cwestiynau, neu ddatrys pryderon yn gyflym ynghylch eu gofal neu driniaeth.

Manylion cyswllt:

**Gwasanaeth Ymholiadau a Datrysiadau'r Bobl (PEARS)**
Ffôn: 03000 851 234
E-bost: BCU.PEARS@wales.nhs.uk
Gwefan: https://bcuhb.nhs.wales/patients-and-visitors/peoples-enquiry-and-resolution-service-pears/

Mae **Llais Gogledd Cymru** yn gorff statudol annibynnol yng Nghymru, ar wahân i'r Bwrdd Iechyd. Mae ganddyn nhw dîm a all ddarparu gwasanaeth eiriolaeth a chymorth annibynnol am ddim i unrhyw un sy'n codi pryderon am y GIG a gofal a thriniaeth gymdeithasol.

Os oes niwed neu anaf, gallwch gael cyngor cyfreithiol. Os byddwch chi'n cychwyn camau cyfreithiol, mae'r ymchwiliad Gwrando ar Bobl yn dod i ben. Os nad ydych chi'n siŵr, gall gwasanaethau fel Llais eich helpu i ddeall eich opsiynau.

**Llais (Gogledd Cymru)**
Ffôn: 01248 679284 / 01978 356178
E-bost: northwalesenquiries@llaiscymru.org
Gwefan: www.llaiscymru.org

***Meddygfa Waunfawr***

**Cyfeiriad: Liverpool House, Waunfawr, LL55 4YY**

**Ffôn:01286 650223**

Dyddiad Cyhoeddi: April 2017

Adolygwyd: 30/06/2026 RHT